**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**21 Tachwedd 2023**

## RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL

### Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000 ("Rheoliadau 2000") yn darparu ar gyfer peiriannau a pheirianwaith y tybir eu bod yn rhan o hereditament, at ddibenion prisio ar gyfer ardrethi annomestig. Yn gyffredinol, cyfeirir at beiriannau a pheirianwaith fel cyfarpar a ddefnyddir wrth gynnal busnes, yn hytrach na'r lleoliad neu'r adeilad lle y mae busnes yn cael ei gynnal.

2. Mae Rheoliadau 2000 hefyd yn rhagnodi rhai eithriadau penodedig ar gyfer peiriannau a pheirianwaith y byddid yn tybio fel arall eu bod yn rhan o'r hereditament. Mae Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn diwygio Rheoliadau 2000 i ddarparu ar gyfer eithriadau ychwanegol ar gyfer peiriannau a pheirianwaith a ddefnyddir mewn cysylltiad ag ynni adnewyddadwy ar y safle ac i storio pŵer ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan.

### Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3. Dim.

### Y cefndir deddfwriaethol

4. Mae adrannau 42(4) a 53(3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") yn darparu bod rhaid i restrau ardrethu annomestig gynnwys gwerthoedd ardrethol yr eiddo a restrir. Mae Atodlen 6 i Ddeddf 1988 yn darparu sut y penderfynir ar y gwerth ardrethol. Mae Rheoliadau 2000 yn pennu rhagdybiaethau sydd i'w gwneud wrth gymhwyso paragraff 2(1) i (7) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 mewn perthynas â pheiriannau a pheirianwaith.

5. Mae pedwar dosbarth o beiriannau a pheirianwaith y tybir eu bod yn rhan o hereditament at ddibenion prisio yn cael eu rhagnodi gan Reoliadau 2000. Mae Dosbarth 1 yn cynnwys peiriannau a pheirianwaith a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio yn bennaf neu yn unig mewn cysylltiad â chynhyrchu pŵer, storio pŵer, y newid pŵer cyntaf neu'r prif drosglwyddiad pŵer yn yr hereditament neu arno. Mae eithriad yn gymwys i Ddosbarth 1 pan fo'r pŵer yn bennaf neu yn unig ar gyfer ei ddosbarthu i ddefnyddwyr. Mae Rheoliadau 2023 yn diwygio Rheoliadau 2000 i ragnodi eithriadau ychwanegol rhag Dosbarth 1.

6. Mae paragraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio Rheoliadau 2000 er mwyn eithrio rhag Dosbarth 1 beiriannau a pheirianwaith ar y safle, a ddefnyddir wrth gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac wrth storio pŵer ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan. Trosglwyddwyd pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo

Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

7. Mae'r pŵer i ddiwygio Rheoliadau 2000 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael**

8. Diben Rheoliadau 2023 yw eithrio rhag asesiadau ardrethu ar gyfer yr hereditamentau y maent yn rhan ohonynt, beiriannau a pheirianwaith a ddefnyddir mewn cysylltiad â chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle a storio pŵer ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan. Bydd yr eithriadau yn gymwys rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2035 a'u bwriad yw annog buddsoddiad mewn technolegau adnewyddadwy a datgarboneiddio eiddo annomestig.

9. Yn benodol, mae Rheoliadau 2023 yn eithrio peiriannau a pheirianwaith a ddefnyddir, neu y bwriedir eu defnyddio ar gyfer cynhyrchu, storio, newid neu drosglwyddo pŵer pan fo'r ffynonellau ynni neu’r technolegau y dibynnir arnynt, yn bennaf neu yn unig, yn rhai adnewyddadwy. Mae'r ffynonellau a'r technolegau penodol yr ystyrir eu bod yn adnewyddadwy wedi'u rhestru yn y Rheoliadau. Mae Rheoliadau 2023 hefyd yn eithrio peiriannau a pheirianwaith a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio'n bennaf neu yn unig ar gyfer storio, newid neu drosglwyddo pŵer ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan.

**Ymgynghori**

10. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar yr eithriadau arfaethedig rhwng 23 Mai a 15 Awst 2023 a chafwyd 33 o ymatebion. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynigion. Cyhoeddwyd crynodeb o ymatebion ar 16 Hydref 2023.

## RHAN 2: ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Yr opsiynau

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn mewn perthynas ag eithriadau ar gyfer peiriannau a pheirianwaith y tybir eu bod yn rhan o hereditament at ddibenion prisio. Dyma'r opsiynau a ystyriwyd.

- ***Opsiwn 1 – Gwneud dim***. Parhau â'r trefniadau presennol, heb unrhyw newidiadau i gwmpas eithriadau o ran peiriannau a pheirianwaith.

- ***Opsiwn 2 – Gwneud Rheoliadau 2023***. Deddfu i gefnogi'r defnydd o ynni adnewyddadwy gan ddarparu ar gyfer eithriadau perthnasol o ran peiriannau a pheirianwaith.

### Costau a manteision

#### *Opsiwn 1 – Gwneud dim*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn gofyn am unrhyw newid deddfwriaethol. Byddai'n osgoi unrhyw ostyngiad i'r refeniw a delir i'r gronfa ardrethi annomestig sy'n gysylltiedig ag eithriadau ychwanegol o ran peiriannau a pheirianwaith. Ni fyddai unrhyw gostau gweinyddol ar gyfer Asiantaeth y Swyddfa Brisio nac ar gyfer awdurdodau bilio.

Byddai anfantais gymharol i dalwyr ardrethi yng Nghymru, gan fod eithriadau cyfatebol eisoes ar waith yn Lloegr. Gallai hyn arwain at rwymedigaethau ardrethi annomestig uwch yng Nghymru ar gyfer eiddo cymharol ac mae'n creu risg o anghymell y defnydd ehangach o dechnolegau adnewyddadwy perthnasol mewn eiddo annomestig. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cefnogi nod polisi Llywodraeth Cymru o ran helpu talwyr ardrethi sy’n buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

#### *Opsiwn 2 – Gwneud Rheoliadau 2023*

Opsiwn 2 fyddai gwneud Rheoliadau 2023 i roi'r eithriadau ychwanegol ar waith o ran peiriannau a pheirianwaith. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi'r un cymhelliant i dalwyr ardrethi yng Nghymru â'r rhai yn Lloegr, a hynny mewn perthynas â defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy wrth gynhyrchu ynni. Bydd hyn yn helpu i gefnogi uchelgeisiau ynni adnewyddadwy ehangach a'r symud tuag at sero net.

Bydd gweithredu'r eithriadau yn arwain at gostau gweinyddol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, o ran diweddaru'r asesiadau ardrethu ar gyfer eiddo perthnasol er mwyn ystyried y newidiadau. Mae'r eithriadau yn efelychu’r rhai y mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio eisoes wedi'u rhoi ar waith ar gyfer Lloegr. Bydd hyn yn lleihau'r costau gweinyddol i Gymru.

Yn seiliedig ar wybodaeth o’r rhestr ardrethu gyfredol, amcangyfrifir y byddai'r opsiwn hwn yn golygu gostyngiad blynyddol o £240,000 yn y refeniw a delir i'r gronfa ardrethi annomestig. Mae hyn yn debygol o fod yn oramcan gan nad yw'n

ystyried unrhyw ryddhadau ardrethi annomestig y gallai'r hereditamentau perthnasol fod yn gymwys ar eu cyfer eisoes. Mae'n gyfran fach iawn o'r £1.1 biliwn o refeniw net a godir yn flynyddol gan ardrethi annomestig.

**Dewis opsiwn**

Ystyrir bod manteision Opsiwn 2 yn gorbwyso'r costau cysylltiedig, yn ogystal â manteision Opsiwn 1. Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

**Dyletswyddau**

***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***. Mae cymell y defnydd o ynni adnewyddadwy drwy eithriadau ar gyfer peiriannau a pheirianwaith yn cyfrannu at y nodau llesiant sy'n ymwneud â Chymru lewyrchus a Chymru gydnerth.

***Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn***. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.

***Y Gymraeg***. Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal.

***Cydraddoldeb***. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

***Y sector gwirfoddol***. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar y sector gwirfoddol.

***Cyfiawnder***. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar y system gyfiawnder.

**Asesiad cystadleuaeth**

Mae prawf hidlo cystadleuaeth wedi'i gynnal ar Reoliadau 2023 ac ystyrir bod y risg o effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth yn isel.

**Adolygu ar ôl gweithredu**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio i fonitro effaith y newidiadau ar y sylfaen drethu ardrethi annomestig.